# Colegau arbenigol annibynnol

**8**

Nifer y colegau arbenigol annibynnol Gorffennaf 2025

Llythyron lles a anfonwyd y flwyddyn academaidd ddiwethaf: 0
Llythyron lles a anfonwyd y flwyddyn academaidd hon: 0
Darparwyr mewn categori gweithgarwch dilynol y flwyddyn academaidd hon: 0

### Gweithgarwch arolygu a gynhaliwyd eleni

Arolygiad craidd: **1**

Arolygiad monitro : **2**

Ymweliadau eraill:
2 ymweliad cofrestru cychwynnol
1 ymweliad newidiadau i drefniadau

### Cipluniau

Bevan College: Hunanwerthuso
Coleg Elidyr: Cystadlaethau medrau
Coleg Elidyr: Ymagwedd cyfathrebu cyflawn
Coleg Elidyr: Darpariaeth Gymraeg
Coleg Elidyr: Dysgu proffesiynol

## Crynodeb

Mae colegau arbenigol annibynnol yn addysgu cymysgedd o ddysgwyr 16 oed a hŷn ledled Cymru, gyda'r dysgwyr yn cael eu hariannu yng Nghymru a Lloegr. Eleni, maent wedi addysgu ychydig dros 200 o ddysgwyr sy'n cael eu hariannu gan Gymru.

Oherwydd diwygiadau i anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae ariannu'r lleoliadau hyn i ddysgwyr o Gymru yn symud o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae bron pob lleoliad mewn colegau arbenigol annibynnol yn cael eu hariannu gan awdurdodau lleol yng Nghymru neu Loegr, gyda Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu ychydig bach iawn ohonynt. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cyfanswm nifer y dysgwyr o Gymru sydd wedi cofrestru mewn colegau arbenigol wedi aros yn weddol gyson.

Nid oes unrhyw un o'r darparwyr hyn mewn categori gweithgarwch dilynol ar hyn o bryd.

## Addysgu a dysgu

### Darparwyr a arolygwyd

Ar y cyfan, ar draws y tri darparwr a arolygwyd, dangosodd bron bob un o'r dysgwyr agweddau hynod gadarnhaol at ddysgu. Fe wnaethant wrando'n astud, dilyn cyfarwyddiadau a rhyngweithio'n

gadarnhaol â'u cymheiriaid. At ei gilydd, roedd bron bob un o'r dysgwyr wedi gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau unigol a datblygu amrywiaeth o fedrau perthnasol, a wnaeth eu paratoi'n addas ar gyfer eu bywyd yn y dyfodol. Yn nodedig, gwnaethant cynnydd da yn eu medrau cymdeithasol ac annibyniaeth.

Ym mhob un o'r tri choleg, datblygodd staff ddealltwriaeth gadarn o anghenion eu dysgwyr a dyheadau eu dysgwyr at y dyfodol. Fe ddefnyddion nhw'r wybodaeth hon yn addas i gynllunio ar gyfer cynnydd. Yn un o'r colegau, rhoddodd staff gyfleoedd sylweddol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau ymhellach mewn lleoliadau go iawn ac yn y gymuned ehangach.

Ar draws y colegau a arolygwyd, cafodd y cwricwlwm ei gryfhau trwy ychwanegu amrywiaeth o weithgareddau difyr yn y gymuned i ddatblygu medrau byw'n annibynnol dysgwyr. Er enghraifft, mewn un coleg, galluogodd profiad gwaith 'butties on the go' i ddysgwyr werthu amrywiaeth o fyrbrydau ar draws y parc busnes mae'r coleg wedi'i leoli ynddo.

Fodd bynnag mewn un coleg, nid oedd digon o sylw i sut mae cynnwys pynciau yn cael ei gyflwyno. Er enghraifft, yn rhy aml, roedd dysgwyr yn cwblhau tasgau lefel isel ar bapur, fel torri a gludo, nad oedd yn cefnogi datblygiad cynyddol eu hannibyniaeth, eu medrau na'u dealltwriaeth.

### Darparwyr yr ymwelwyd â nhw

Yn y chwe darparwr yr ymwelom ni â nhw, roedd cynlluniau'r cwricwlwm yn cynnwys ffocws addas ar ddatblygu medrau byw'n annibynnol ac, yn gyffredinol, roedd staff yn cysylltu hyn yn briodol â chyrchfan arfaethedig pob dysgwr.

### Cystadlaethau Medrau yng Ngholeg Elidyr

Trwy eu cyfranogiad mewn cystadlaethau medrau lleol, cenedlaethol a ledled y Deyrnas Unedig, mae dysgwyr yn elwa ar y profiad i gymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau dilys dan bwysau. Mae'r cyfleoedd hyn ar draws ystod o sectorau, gan gynnwys lletygarwch, manwerthu, y celfyddydau perfformiadol, garddwriaeth, iechyd, gwaith coed a gofal anifeiliaid. Mae dysgwyr yn datblygu hyder a gwydnwch yn arbennig o dda. Mae'r coleg wedi meithrin perthnasoedd cryf â busnesau lleol sy'n galluogi dysgwyr i ymarfer a dysgu medrau penodol y maent yn eu defnyddio yn y gweithle ac yn eu bywydau bob dydd.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

### Darparwyr a arolygwyd

Yn yr holl golegau a arolygwyd, datblygodd staff berthnasoedd hynod gadarnhaol a pharchus â dysgwyr, ar sail dealltwriaeth gadarn o'u hanghenion. Roeddent yn fodelau cadarnhaol o ymddygiad i ddysgwyr, gan ddangos amynedd a sensitifrwydd yn eu gwaith. Roedd gan bron bob un o'r staff ddisgwyliadau cyson uchel o annibyniaeth dysgwyr.

Mewn un coleg a arolygwyd, roedd systemau cyfathrebu, fel adnoddau symbol neu arwyddo, yn cael eu defnyddio'n anghyson.
Ar draws y colegau a arolygwyd, roedd trefniadau cadarn i gasglu adborth ar brofiadau dysgwyr. O ganlyniad, teimlai dysgwyr bod staff yn gwrando arnynt ac roeddent yn ymddiried mewn staff i

ystyried eu llais.

### Darparwyr yr ymwelwyd â nhw

Yn yr holl golegau yr ymwelwyd â nhw, roedd trosolwg clir o'u darpariaeth dysgu ychwanegol (DDY), gan gynnwys goruchwyliaeth gan therapyddion a dysgu proffesiynol i staff ar bynciau yn cynnwys bodloni anghenion synhwyraidd.
Ar draws yr holl ddarparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd gan arweinwyr ffocws cadarn ar ddiogelu dysgwyr. Er enghraifft, fe wnaeth un darparwr gydbwyso diogelu yn ofalus â chymryd risgiau cadarnhaol trwy amrywiaeth o weithgareddau ymarferol a diddorol, er enghraifft gwneud bachau cotiau yn yr efail a gofalu am anifeiliaid fferm. Fodd bynnag, mewn un darparwr yr ymwelwyd ag ef, er gwaethaf gwelliannau diweddar, roedd diffyg trylwyredd mewn prosesau recriwtio diogelach.

### Ymagwedd cyfathrebu cyflawn yng Ngholeg Elidyr

Mae ymagwedd cyfathrebu cyflawn yn galluogi unigolion sydd ag anawsterau cyfathrebu i gyfathrebu yn y ffordd sydd fwyaf hygyrch iddyn nhw. O ganlyniad, mae'r coleg wedi datblygu amgylchedd hynod gynhwysol lle gall dysgwyr rannu eu barn, eu meddyliau a'u teimladau â hyder. I lawer o ddysgwyr, mae hyn yn gynnydd sylweddol o'u man cychwyn cychwynnol.

Mae staff yn defnyddio amrywiaeth o arwyddion, symbolau a lleferydd yn Gymraeg a Saesneg i gefnogi dysgwyr trwy gydol y dydd. Mae'r ymagwedd hon yn hynod effeithiol o ran cefnogi dealltwriaeth, datblygiad medrau a chyfathrebu dysgwyr â phobl eraill.

Mae'r coleg wedi rhoi ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol i sicrhau amgylchedd cyfathrebu o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr. Ymhellach, mae staff yn defnyddio adnoddau o ansawdd uchel yn gyson yn y coleg, a hefyd o fewn y gymuned ehangach, i gynorthwyo dysgwyr.

## Arweinyddiaeth a gwella

### Darparwyr a arolygwyd

Ar draws y tri darparwr a arolygwyd, roedd yr holl arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth a gwerthoedd clir i'r coleg, gyda dysgwyr yn ganolog iddynt. Roeddent wedi datblygu timau staff ymroddedig a oedd yn cydweithio'n gadarnhaol i fodloni anghenion amrywiol dysgwyr.

Mewn dau goleg, roedd arweinwyr wedi datblygu a gweithredu fframwaith hunanwerthuso yn cwmpasu pob agwedd ar y ddarpariaeth. O ganlyniad, roedd gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'u meysydd i'w datblygu, ac roeddent wedi pennu targedau gwella ystyrlon. Fodd bynnag, yn y coleg arall, ni wnaeth arweinwyr werthuso effaith mentrau newydd ar ddysgu ac addysgu yn gyson, ac addasu arfer yn amserol.

Nodom gynnig dysgu proffesiynol arbennig o gryf mewn un coleg. Fodd bynnag, mewn un coleg, roedd cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff yn gysylltiedig ag addysgu yn benodol wedi bod yn gyfyngedig.

## Dysgu proffesiynol cydweithredol yng Ngholeg Elidyr

Mae'r coleg yn darparu ystod helaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol hynod berthnasol i wella medrau'r tîm staff i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys ffocws addas ar addysgu a dysgu yn ogystal â diwallu anghenion ychwanegol dysgwyr. Mae staff yn elwa ar gyfleoedd i arsylwi arfer dda o fewn y coleg ac wrth ymweld â lleoliadau eraill.

Mae staff yn cydweithio fel rhan o 'gymunedau dysgu proffesiynol' i ganolbwyntio ar feysydd arfer y maent eisiau eu gwella. Er enghraifft, bu staff yn canolbwyntio'n ddiweddar ar ffyrdd o gynyddu eu hyder yn ystyrlon wrth gynllunio a hwyluso gweithgareddau corfforol ar gyfer dysgwyr. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio newidiadau ac wedyn gwerthuso'r effaith. O ganlyniad, mae dysgwyr yn fwy egnïol yn eu bywydau o ddydd i ddydd erbyn hyn.

### Darparwyr yr ymwelwyd â nhw

Roedd yr holl golegau yr ymwelwyd â nhw wedi datblygu amgylcheddau dysgu cadarnhaol. Roedd gofod ystafelloedd dosbarth ac amgylcheddau awyr agored yn lliwgar, roedd ganddynt adnoddau da ac roeddent yn cyfateb yn dda, ar y cyfan, i anghenion dysgwyr. Fodd bynnag, mewn dau o'r chwe choleg, roedd agweddau ar yr amgylcheddau dysgu yn rhwystro datblygiad annibyniaeth dysgwyr neu'n peri risgiau.

Roedd y chwe darparwr yr ymwelwyd â nhw yn elwa o gymorth a her sefydliad rhieni ehangach. Rhoddodd hyn arweiniad ymarferol ar feysydd fel datblygu polisi, adnoddau dynol a hunanwerthuso. Fodd bynnag, mewn dau goleg, ni wnaeth y cymorth a'r arweiniad hwn adlewyrchu cyd-destun Cymreig y coleg yn gyson na chyfeirio'n briodol at ddeddfwriaeth a chanllawiau Cymru.

## Hunanwerthuso yn Bevan College

Mae arweinwyr yn llwyddo i wneud anghenion a chyd-destunau penodol eu dysgwyr yn ganolbwynt gwaith gwella ac maent yn sicrhau bod pob agwedd ar y gwaith yn adlewyrchu natur a gofynion unigryw addysg arbenigol ADY.

Mae teithiau dysgu ac arsylwadau gwersi arweinwyr yn cydnabod anghenion amrywiol eu dysgwyr. Wrth werthuso'r ddarpariaeth, maent yn rhoi pwys ar yr amrywiaeth eang o ddeilliannau a'r gwahanol ffyrdd y mae eu dysgwyr yn gwneud cynnydd. Mae prosesau ar gyfer gwrando ar farn dysgwyr yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y dysgwyr sy'n cael trafferth â chyfathrebu, yn gallu cyfrannu at wella'r coleg.

O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddarlun manwl a chywir o gryfderau addysgu'r coleg a'i feysydd i'w datblygu.

## Trosolwg o'r argymhellion o arolygiadau ac ymweliadau monitro

O fewn y sector hwn, rydym yn gadael argymhellion ar gyfer ymweliadau monitro ac arolygiadau craidd yn unig. Ar draws yr holl weithgarwch arolygu yn 2024-2025, gadawom gyfanswm o 5 argymhelliad. Gadawyd argymhellion i ddau o’r tri darparwr a arolygwyd.

Rhoddwyd argymhellion i’r ddau ddarparwr yn gysylltiedig â dysgu ac addysgu. Canolbwyntiodd y rhain ar ansawdd targedau dysgwyr a mireinio dulliau o ddarparu gwersi.

Gadawom argymhelliad gydag un darparwr yn gysylltiedig â gofal, cymorth ac arweiniad. Roedd hyn yn ymwneud â chryfhau’r defnydd o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys arwyddo, ar draws y coleg.

Gadawyd o leiaf un argymhelliad i ddau ddarparwr yn gysylltiedig ag arwain a gwella. Roedd y rhain yn ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd dysgu a defnyddio deilliannau hunanwerthuso i yrru gwelliannau.